*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid o'r CABINET yn cael ei gynnal ar**
**Dydd Llun, 23ain Hydref, 2023 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Hannah Jones – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Iau, 19 Hydref 2023. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.
Nodwch:
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Medi 2023 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 7 - 16)**

**3. TREFNIADAU COMISIYNU'R DYFODOL AR GYFER GOFAL CARTREF**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n amlinellu argymhellion ynghylch comisiynu gwasanaethau gofal cartref yn y dyfodol.

**(Tudalennau 17 - 78)**

4. **TREFNIADAU COMISIYNU'R DYFODOL AR GYFER GWASANAETH BYW Â CHYMORTH Y CYNGOR I BOBL AG ANABLEDD DYSGU**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n gwneud argymhellion mewn perthynas â chomisiynu Gwasanaeth Byw â Chymorth y Cyngor i Bobl ag Anabledd Dysgu yn y dyfodol.

**(Tudalennau 79 - 124)**

5. **ADBORTH PWYLLGORAU (RHAG-GRAFFU)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n rhoi adborth a sylwadau mewn perthynas â'r eitemau y rhag-graffwyd arnyn nhw gan Bwyllgorau Craffu thematig y Cyngor yn dilyn cyfarfodydd diweddaraf y Pwyllgorau.

**(Tudalennau 125 - 128)**

6. **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG 2022/2023**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy’n cyflwyno Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg 2022/23 i’r Cabinet.

**(Tudalennau 129 - 174)**

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23 AR WEITHDREFNAU RHOI SYLWADAU, CANMOL A CHWYNO'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n rhoi trosolwg i'r Cabinet o drefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefnau cwyno Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

**(Tudalennau 175 - 192)**

8. **CYNLLUN ADBORTH CWSMERIAID - RHOI SYLWADAU, CANMOL A CHWYNO - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen, sy’n rhoi trosolwg i’r Cabinet o drefnau gweithredu ac effeithiolrwydd Cynllun Adborth Cwsmeriaid (CFS) y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

**(Tudalennau 193 - 212)**

9. **OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - LLYTHYR AC ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-2023**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am gyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('PSOW') i'r Cyngor yma ar gyfer 2022-2023.

**(Tudalennau 213 - 254)**

**10. CYNIGION I DDATBLYGU YSGOL ARBENNIG NEWYDD YN RHCT**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy’n rhoi gwybod i’r Aelodau am ganlyniad yr ymgynghoriad diweddar mewn perthynas â’r cynnig i agor ysgol arbennig 3 i 19 oed newydd yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) a chyflwyno dalgylchoedd ar gyfer pob un o'r ysgolion arbennig 3-19 oed ar draws RhCT.

**(Tudalennau 255 - 316)**

**11. MONITRO BLYNYDDOL ARDDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL 2022/2023**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet mewn perthynas â chynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a'r newidiadau arfaethedig i Restr Rheoliad 123. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y camau cyn y cam craffu sydd wedi'u cyflawni gan y Pwyllgor Craffu - Newid Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng-flaen a Ffyniant.

**(Tudalennau 317 - 334)**

**12. ADRODDIAD DIWEDDARAF PARTHED Y STRATEGAETH TAI GWAG**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n rhoi'r diweddaraf i Aelodau am y cynnydd o ran ailddefnyddio cartrefi gwag yn unol â Strategaeth Cartrefi Gwag (2022-2025).

**(Tudalennau 335 - 398)**

**13. STRATEGAETH RHENTU'R SECTOR PREIFAT 2023-26**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n rhoi trosolwg i'r Aelodau o Strategaeth Rhentu'r Sector Preifat 2023 - 2026 arfaethedig ac sy'n ceisio cymeradwyaeth i'w gweithredu.

**(Tudalennau 399 - 444)**

**14. YMGYSYLLTU MEWN PERTHYNAS Â CHYLLIDEB Y CYNGOR - 2024-2025**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am y dull arfaethedig o ymgysylltu ac ymgynghori â thrigolion ynglŷn â phennu cyllideb 2024/25.

**(Tudalennau 445 - 450)**

**15. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

**16. DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen sy'n nodi datganiad sefyllfa ar ddyledion nad oes modd eu casglu, ac sy'n pennu'r gofyniad i ddileu symiau penodol yn unol â meini prawf adolygu llym.

**(Tudalennau 451 - 464)**

**17. CYNON VALLEY WASTE DISPOSAL COMPANY LIMITED AC AMGEN RHONDDA LIMITED – CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, sy'n rhoi cyfle i Aelodau archwilio datganiadau ariannol Cynon Valley Waste Disposal Company Limited ac Amgen Rhondda Limited (y ‘Cwmnïau’) sydd i'w cyflwyno i Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol rhithwir y Cwmnïau ym mis Tachwedd 2023, a galluogi Aelodau i ofyn i swyddogion sy'n mynd i'r cyfarfodydd ar ran y Cyngor fel unig gyfranddalwyr y Cwmnïau bleidleisio yn unol â chyfarwyddiadau Aelodau

**(Tudalennau 465 - 522)**

**18. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Paul Mee, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau’r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Stephen Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol